**16 May 2014**

**DATGANIAD I'R WASG**

## Gweithiau celf amhrisiadwy i ddychwelyd i Gymru yr haf hwn

Dros yr haf, mewn dwy amgueddfa yn ne Cymru, bydd dyfrluniau a darluniau gan artistiaid o enwogrwydd byd-eang, yn cynnwys JMW Turner, Thomas Gainsborough, Samuel Palmer a David Jones yn cael eu harddangos ochr yn ochr â llawysgrifau gwreiddiol gan William a Mary Wordsworth.

Mae 'SAFLEODD YSBRYDOLGAR – Abaty Tyndyrn a Phriordy Nant Hodni' yn ddwy arddangosfa rhad ac am ddim a llwyfannir gan wasanaeth Amgueddfeydd Sir Fynwy. Bydd oriel Amgueddfa Casgwent yn arddangos celf, llawysgrifau a gwrthrychau archeolegol a ysbrydolwyd gan Abaty Tyndyrn yn Nyffryn Gwy ac Amgueddfa Y Fenni a fydd yn arddangos gweithiau sy'n dylunio Priordy Nant Hodni yn Nyffryn Nant Hodni.

"Mae'r safleoedd hanesyddol trawiadol yma o fewn tafliad carreg i ni ac wedi ysbrydoli arlunwyr, llenorion a beirdd ar draws y blynyddoedd" meddai Anne Rainsbury, curadur Amgueddfa Casgwent. "Dyma'r tro cyntaf i'r fath gasgliad cynhwysfawr o weithiau celf a gwrthrychau gael eu casglu ynghyd yma, yn y fan lle cawsant eu creu, ac mae hynny'n eithriadol gyffrous."

Ariennir yr arddangosfeydd gan grant Rhannu Trysorau oddi wrth Llywodraeth Cymru a Chronfa Dreftadaeth y Loteri ac mae hynny wedi galluogi Amgueddfeydd Casgwent a'r Fenni i fenthyg gwrthrychau o orielau o bob cwr o Brydain yn cynnwys y Tate, Yr Amgueddfa Brydeinig, Amgueddfa V&A, Yr Ashmolean, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, CADW ac Amgueddfa Cymru – National Museum Wales.

"Bydd arddangosfeydd yr haf hwn yn Amgueddfeydd Casgwent a'r Fenni yn gyfle unwaith mewn oes i weld celf o safon rhyngwladol a gwrthrychau archeolegol nid nepell o'r safleoedd a ysbrydolodd eu creu. Estynnwn groeso twymgalon i bawb ddod draw a chael gwybod rhagor ynghylch sut y mae artistiaid ar hyd y canrifoedd wedi dehongli'r tirwedd prydferth yr ydym yn byw ynddo" meddai curadur arddangosfa'r Fenni Karin Molson.

Cynhelir yr arddangosfeydd rhwng Mai 24ain a Medi 28ain 2014. Yn ogystal cynhelir cyfres o ddigwyddiadau hyrwyddo gydol yr haf, yn cynnwys taith 'Cerdded gyda Wordsworth' a fydd yn ymweld â hoff fannau'r bardd, a nifer o weithgareddau yn y safleoedd eu hunain. Am ragor o wybodaeth ewch i ymweld â http://www.monmouthshire.gov.uk/museums

Diwedd

Nodiadau i olygyddion:

- Mae'r prosiect hwn yn rhan o raglen 'Rhannu Trysorau', a ariennir trwy grant oddi wrth Lywodraeth Cymru a Chronfa Dreftadaeth y Loteri.
- Mae Rhannu Trysorau yn gynllun a gynlluniwyd â'r nod o wneud trysorau'r genedl yn fwy hygyrch i'r cyhoedd.
- Cyflogwyd Ceridwen gan Amgueddfeydd Y Fenni a Chasgwent er mwyn hybu a hyrwyddo ymwneud cymunedol â'r prosiect Rhannu Trysorau.
- Gall gohebwyr gael rhagor o wybodaeth ynteu drefnu cyfweliadau o gysylltu â jane@ceridwengroup.co.uk ynteu rhoi caniad iddi ar 07970 792986.
- Amgueddfa Casgwent, Gwy House, Bridge St, Casgwent, Gwent NP16 5EZ Tel: 01291 625981.
  Amseroedd Agor (yn cynnwys Gwyliau'r Banc):
  Mawrth, Ebrill, Mai, Mehefin, Hydref: Llun – Sadwrn 11.00 am – 5.00 pm Sul 2.00 – 5.00 pm
  Gorffennaf, Awst, Medi: yn ddyddiol 10.30 am – 5.30 pm
- Amgueddfa'r Fenni, The Castle, Castle Street, Y Fenni, Sir Fynwy. NP7 5EE Tel: 01873 854282
  Amseroedd Agor (yn cynnwys Gwyliau'r Banc):
  Llun – Sadwrn: 11am – 1pm, 2pm – 5pm (tan 4pm yn ystod misoedd y gaeaf)
  Sul: 2pm – 5pm (ar agor yn ystod misoedd yr haf yn unig)